



<b>Enw:</b>	<i>Elinor Crouch-Puzey, Swyddog Polisi ac Ymchwil</i>
<b>Sefydliad:</b>	<i>Cymorth i Ferched Cymru</i>
<b>Cyfeiriad Eboost:</b>	<i>EliCrouch-Puzey@welshwomensaid.org.uk</i>
<b>Rhif Ffôn:</b>	<i>02920 541 551</i>
<b>Cyfeiriad:</b>	<i>Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE</i>
<b>Dyma safbwyntiau:</b>	<i>Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) - yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.</i>

### Ynglŷn â Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau annibynnol arbenigol yng Nghymru yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) (sy'n cynnwys ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac aelodau rhanbarthol Fforymau Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol).<sup>1</sup> Mae'r gwasanaethau hyn, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y Deyrnas Unedig, yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau yn ogystal â gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Fel corff ymbarél, ein prif bwrpas yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroeswyr, a'r rheini'n wasanaethau sy'n ymateb i anghenion, sy'n dangos cydraddoldeb rhywiol ac sy'n holisitig. Cydweithiwn yn genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac arferion cymunedol yng Nghymru; darparwn gyngor,

<sup>1</sup> Mae ein haelodaeth o 22 o wasanaethau arbenigol trydydd sector yng Nghymru sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y mae gennym gytundebau partneriaeth cenedlaethol â hwy er mwyn sicrhau y cydlynir ac integreiddir ein gwaith, yn cynnwys : Dylunio a Mynediad Aberconwy, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Cylch, Cymorth i Ferched Cymdeithasau Tai Clwyd Alyn (CAHA), *Stepping Stones*, *Safer Merthyr Tydfil*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, *Calan DVS*, Cymorth i Fenywod Caerdydd, Cymorth i Fenywod Cyfannol, Uned Diogelu Trais Teuluol (DASU), Gorwel (Grŵp Cynefin), *Montgomeryshire Family Crisis Centre*, Cymorth i Fenywod Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Cymorth i Fenywod Rhondda Cynon Taf, Cymru Ddiogelach (gan gynnwys prosiect *Dyn*), Cymorth i Fenywod Abertawe, *Threshold*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru a Chanolfan Trais a Cham-drin Rhywiol (RASASC) Gogledd Cymru.

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962

[https://welshwomensaid-](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 73 WWAresponse Renting Homes (Fees) Act - FINAL.docx



gwasanaethau ymgynghori, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac o fewn cymunedau, a hynny er budd goroeswyr.

Rydym ni hefyd yn darparu gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys, er enghraifft, Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a phartneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol. Rydym yn treilau prosiect 'Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr' (SEEdS), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddod at ei gilydd i ysbrydoli ac i ddylanwadu ar welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus a fframweithiau comisiynu, ac i fod yn gymorth i newid agweddau.

Rydym ni hefyd yn cyflewni Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymru, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (a gefnogir gan Lywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir mwy o wybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd Cenedlaethol yma : <http://www.welshomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/>)

### **Ymateb Cymorth i Ferched Cymru i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 Llywodraeth Cymru**

1. Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi drafftio'r ymateb canlynol i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 Llywodraeth Cymru: diffyg daliadau a gwybodaeth ragnodedig. Yn hytrach nag ateb yn benodol y cwestiynau unigol yn yr ymgynghoriad rydym wedi darparu sylwadau ar bwyntiau penodol sy'n berthnasol i fater trais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, sef; ystyried y dylai tenantiaid sy'n hwyr gyda'u rhent, fod yn agored i daliad hwyr a ffi trwsio am ddifrod a achosir gan y tenant.

2. Fel y noda Llywodraeth Cymru yn y ddogfen ymgynghori *'fe'i hystyrir yn deg y dylai tenant sy'n hwyr gyda'i r(h)ent, ac efallai'n gyson felly weithiau, fod yn agored i dâl am dalu'n hwyr'*. Rydym yn anghytuno â hyn ac yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod eithriad neu gymal i gwmpasu goroeswyr cam-drin domestig mewn achosion lle bo cam-drin economaidd yng nghyd-destun rheolaeth gymhellol. Pryderwn y bydd goroeswyr cam-drin yn agored i dâl rhent hwyr wedi'i achosi gan ddrwgweithredwr sy'n peri ansicrwydd tai yn fwriadol i'r goroeswr neu'n atal annibyniaeth economaidd arall. Er enghraifft, mae 63% o denantiaid sy'n cael eu cam-drin wedi cael ôl-ddyledion rhent yn eu herbyn o'u cymharu â 19% o'r 'boblogaeth denantiaid gyffredinol'<sup>2</sup> ac felly mae perygl y gallent golli eu cartrefi. Gwaethygir y pryder hwn gan y diffyg lle i fenywod sy'n dymuno cael mynediad i gymorth mewn lloches, er enghraifft nododd adroddiad diweddaraf Cymorth i Ferched Cymru ar Gyflwr y Sector nad oedd modd i 431 o oroeswyr dderbyn cymorth oherwydd diffyg adnoddau a

<sup>2</sup> Domestic Abuse and Housing and Wales, Jackson, <http://www.cih.org/resources/PDF/Wales%20Policy/Domestic%20abuse%20and%20housing%20in%20Wales%20factsheet.pdf>, tudalen 9

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshomensaid.org.uk](mailto:info@welshomensaid.org.uk) | Web: [www.welshomensaid.org.uk](http://www.welshomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962

[https://welshomensaid-](https://welshomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA](https://welshomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 73 WWAresponse Renting Homes (Fees) Act - FINAL.docx



chapasiti<sup>3</sup>. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried canllawiau ar gyfer landlordiaid sy'n pryderu bod taliadau hwyr tenant o ganlyniad i gam-drin economaidd. Gall Cymorth i Ferched Cymru gynorthwyo gyda hyn. Byddem hefyd yn argymhell fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ehangu 'Gofyn a Gweithredu'<sup>4</sup> i'r garfan hon o landlordiaid cymdeithasol a phreifat.

3. Disgwylir yn gyffredinol bod cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod yn achosi digartrefedd ac ansicrwydd tai i fenywod, canfu adroddiad 'Economics of Abuse' fod 33.3% o'r ymatebwyr wedi gorfod ildio'u cartrefi oherwydd y cam-drin<sup>5</sup>. **Pryderwn y bydd y wladwriaeth yn hwyluso'r digratrefedd hwn os nad yw'n nodi'n glir mewn deddfwriaeth na ddylai goroeswyr camdriniaeth gael eu cosbi a'u troi allan oherwydd gweithredoedd y drwgweithredwr.** Byddai hyn hefyd yn gwrthddweud cynlluniau Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn haws i ddrwgweithredwyr gael eu targedu ar gyfer eu troi allan, tra'n cynnal y denantiaeth i oroswyr, lle ceir cyd-denantiaeth.

4. O ran difrod i'r eiddo, unwaith eto mae'n hanfodol bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i achos y difrod hwnnw. Os bydd ceisiadau mynych am atgyweiriadau neu geisiadau atgyweirio penodol, megis difrod i ddrysau (yn enwedig y rhai sydd â chlo arnynt) dylid galluogi landlordiaid i gefnogi tenantiaid lle bo pryderon bod y difrod yn cael ei achosi yng nghyd-destun cam-drin domestig a rheolaeth gymhellol. Ni ddylai'r goroeswr wedyn ysgwyddo cost y gwaith atgyweirio hwnnw.

5. Mae Cymorth i Ferched Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried edrych ar enghreifftiau o arferion gorau gan gymdeithasau tai sydd â pholisïau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n nodi bod cam-drin yn torri tenantiaeth a lle mae staff wedi'u hyfforddi mewn agweddau ar gam-drin er mwyn cefnogi adnabyddiaeth gynnar. Yng Nghymru, mae'r Bartneriaeth Rhyddid rhag Ofn yn cynnwys canllawiau ac offer i ddarparwyr tai adnabod ac ymateb yn briodol i oroswyr<sup>6</sup>.

6. Gyda niferoedd cynyddol o bobl yn byw yn y sector rhentu, mae'n hanfodol bod landlordiaid yn cael eu cynorthwyo i ddeall y rôl y mae'n rhaid iddyn nhw ei chwarae mewn ymateb cydgysylltiedig i bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae Cyfrifiad Llofruddiaethau Menywod wedi canfod yn gyson mai'r lle mwyaf cyffredin i gael dynladdiad domestig yw yn y cartref a rennir gyda'r drwgweithredwr (32.4% yn yr adroddiad diweddaraf) neu yng nghartref y dioddefwr ei hun (26.6%)<sup>7</sup>. Gallai bod yn ymwybodol o arwyddion cynnar megis ôl-ddyledion rhent, taliadau hwyr neu ddifrod olygu'r gwahaniaeth rhwng byw a marw i denantiaid.

<sup>3</sup> <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/01/State-of-the-Sector-2018-Eng.pdf>

<sup>4</sup> <https://www.welshwomensaid.org.uk/training/ask-act/>

<sup>5</sup> Economics of Abuse, Sarah Davidge and Lizzie Magnusson, Women's Aid Federation England, <https://www.womensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/03/Economics-of-Abuse-Report-2019.pdf>, tudalen 50.

<sup>6</sup> <https://www.freefromfear.wales/>

<sup>7</sup> The Femicide Census, Profiles of Women Killed by Men, Dr Julia Long, Keshia Harper, Heather Harvey <https://1q7dqy2unor827bqjls0c4rn-wpengine.netdna-ssl.com/wp-content/uploads/2018/12/Femicide-Census-of-2017.pdf> page 30

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962

[https://welshwomensaid-](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA](https://welshwomensaid-my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 73 WWAresponse Renting Homes (Fees) Act - FINAL.docx



Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Byddai Cymorth i Ferched Cymru yn hapus i ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth bellach ynghylch y pwnc hwn, neu faterion cysylltiedig, pe baech yn gofyn amdano.

---

Gellir cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau ynghylch ein hymateb at:

Elinor Crouch-Puzey

Swyddog Polisi ac Ymchwil

[EliCrouch-Puzey@welshwomensaid.org.uk](mailto:EliCrouch-Puzey@welshwomensaid.org.uk)

02920541551

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE

Tel: 02920 541551 | Fax: 02920 736128 |

Email: [info@welshwomensaid.org.uk](mailto:info@welshwomensaid.org.uk) | Web: [www.welshwomensaid.org.uk](http://www.welshwomensaid.org.uk)

Registered Charity Number: 1140962

<https://welshwomensaid->

[my.sharepoint.com/personal/aliwhite\\_welshwomensaid\\_org\\_uk/Documents/Desktop/WWA](https://my.sharepoint.com/personal/aliwhite_welshwomensaid_org_uk/Documents/Desktop/WWA)

Translation 73 WWAresponse Renting Homes (Fees) Act - FINAL.docx